Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

9 Mai 2008

Annwyl Gyfaill

Ymgynghoriad – Cynigion ar gyfer y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu)

Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i ennill balot a gynhaliwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n caniatáu i Aelodau Cynulliad gyflwyno'u deddfwriaeth eu hunain. Rwyf wrthi'n cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd cyn cyflwyno Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol (gan gynnwys Parciau Cenedlaethol a Chynghorau Cymuned) i baratoi datganiadau o'r effaith pan fyddan nhw'n cynnig cael gwared ar gaeau chwarae ac ymgynghori yn eu cylch, ac a ddiffinnir o ran maint a rhai digwyddiadau chwaraeon arbennig. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i warediad arfaethedig a'i effaith ar iechyd a lles y gymuned leol, cyn iddo fynd yn ei flaen.

Gellir dod o hyd i fanylion y Mesur arfaethedig a'r ddogfen ymgynghori, gan gynnwys y nodiadau esboniadol yn y linc canlynol http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-measures-playingfields.htm. Os hoffech gael copïau caled o'r dogfennau ymgynghori, cysylltwch â'r Swyddfa Ddeddfwriaeth. Ceir y manylion cyswllt isod. Mae'n bwysig iawn fy mod yn clywed eich barn ar fy nghynnig a bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r cynigion terfynol ar gyfer y Mesur arfaethedig a gyflwynaf ym mis Gorffennaf 2008 i'w ystyried gan y Cynulliad.

Wrth baratoi eich cyflwyniad byddai'n ddefnyddiol be baech yn ystyried y cwestiynau penodol a geir yn Atodiad 2 o'r ddogfen ymgynghori.

Er mwyn cyflwyno ymateb, anfonwch gopi electronig i'r cyfeiriad e-bost canlynol legislationoffice@wales.gsi.gov.uk gan nodi'r teitl *Ymgynghoriad ar y Mesur Arfaethedig Meysydd Chwarae*. Os hoffech anfon copi papur o'ch cyflwyniad, dylech ei anfon at Ruth Hatton, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r holl ymatebion yw 13 Mehefin 2008. Ni fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208
Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8224
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Wrth baratoi eich cyflwyniad, cofiwch:

- Dylai eich ymateb fod mor gryno â phosibl. Cyfeiriwch eich ymateb drwy ddefnyddio'r teitl a nodir uchod.
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod hefyd mewn cyfarfodydd Pwyllgor yn y dyfodol. **Os nad ydych am i'ch ymateb neu eich enw gael ei gyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn ar ddiwedd eich cyflwyniad.**
- Nodwch pa un a ydych yn ymateb ar ran corff neu fel unigolyn.
- Nodwch pa un a fyddwch yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar i Bwyllgor yn y dyfodol ai peidio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Clerc, Gareth Williams (ffôn: 029 2089 8008) neu Ruth Hatton, y Dirprwy Glerc (ffôn: 029 2089 8019).

Yn gywir

Dai Lloyd AC

Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208
Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8224
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 20823280
E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk